Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gwasanaethau deintyddol GIG: Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Nifer y cleifion sy’n derbyn triniaeth ddeintyddol ar y GIG, y math o driniaeth a ddarparwyd a’r nifer o ddeintyddion GIG ar gyfer Ebrill 2022 i Fawrth 2023

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 17 Hydref 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 17 Hydref 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Cleifion a gafodd eu trin

Gweithgarwch: cyrsiau triniaeth

Taliadau cleifion

Gweithgarwch: gweithgarwch deintyddol clinigol

Gweithgarwch orthodonteg

Y gweithlu

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Rydym am gael eich adborth

Manylion cyswllt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae'r ystadegau yn y datganiad hwn yn seiliedig ar waith deintyddol y GIG a gyflawnwyd gan ddeintydd yn y GIG yng Nghymru ac a gyflwynwyd ar gyfer derbyn taliad. Caiff y data eu cyflenwi a'u prosesu gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Darperir ystadegau newydd ar gyfer: nifer a chanran y cleifion a gafodd eu trin yn ystod y cyfnod o 24 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023; ac ar gyfer nifer y cyrsiau triniaeth a gwblhawyd, y gweithgarwch clinigol sylfaenol a gyflawnwyd, y gweithlu deintyddol, a gweithgarwch orthodonteg yn y flwyddyn ariannol 2022-23.

Mae diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y datganiad ar gael yn yr **adran ansawdd a methodoleg**.

# Prif bwyntiau

Yn y cyfnod o 24 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, bu traean o gynnydd (34.0%) yn nifer yr oedolion a gafodd eu trin gan ddeintydd yn y GIG (34.0%) ac ers y cyfnod o 24 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 bu 41.1% o gynnydd yn nifer y plant a gafodd driniaeth.

Er bod nifer y cleifion a gafodd eu trin wedi cynyddu'n sylweddol, mae'r nifer yn parhau i fod yn is na'r hyn oedd cyn y pandemig.

Roedd mwy na 180,000 o'r cleifion a gafodd eu trin yn y flwyddyn ariannol 2022-23 yn gleifion newydd (cleifion nad oedd wedi cael unrhyw **driniaethau Band 1, 2 neu 3** yn y GIG yn y pedair blynedd flaenorol). Roedd hyn yn 17.2% o'r holl gleifion a gafodd eu trin yn ystod y flwyddyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn 2022-23, cofnodwyd bron i 1.4 miliwn o gyrsiau triniaeth, sydd draean (29.4%) yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol, ond bron i 42% yn is nag yn y flwyddyn cyn y pandemig (2019-20).

Roedd mwy na hanner (53.5%) y triniaethau yng nghategori Band 1 a bu cynnydd mewn gweithgarwch ar gyfer triniaethau ym Mand 1, 2 a 3 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 38.6% mewn triniaethau am ddim, a ostyngodd i'r lefel isaf ar gofnod, a bu gostyngiad o16.6% mewn triniaethau brys: y gostyngiad blynyddol cyntaf mewn triniaethau brys ers y pandemig.

Roedd ychydig dros chwech o bob deg (62.7%) o gyrsiau triniaeth oedolion ac wyth o bob deg (81.6%) o gyrsiau triniaeth plant yn cynnwys farnais fflworid, ac roedd ychydig dros chwech o bob deg (62.1%) o gyrsiau triniaeth oedolion a saith o bob deg (70.5%) o gyrsiau triniaeth plant yn cynnwys yr asesiad sydd newydd gael ei gyflwyno – **yr Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN)**.

Yn 2022-23, codwyd £22.7m o refeniw o daliadau cleifion, cynnydd o 19.6% ers 2021-22 ond 34.9% yn is na'r lefel cyn y pandemig, sef £34.9m yn 2019-20.

Cofnodwyd mwy na 10,000 (10,695) o driniaethau orthodonteg yn 2022-23, cynnydd o 13.7% ers y flwyddyn flaenorol a'r nifer uchaf i'w gofnodi.

Cofnododd 1,434 o ddeintyddion waith GIG yn 2022-23, cynnydd o 1.0% ers y flwyddyn flaenorol. Mae cyfanswm nifer y deintyddion a wnaeth unrhyw waith GIG yn ystod y flwyddyn wedi aros yn weddol debyg am y deng mlynedd flaenorol.

Fe wnaeth nifer cyfartalog y cyrsiau triniaeth a gyflawnwyd gan bob deintydd yn 2022-23 gynyddu 28.1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond mae'n parhau i fod yn is na'r hyn oedd cyn y pandemig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn 2022-23, roedd ychydig dros hanner (50.8%) o ddeintyddion y GIG yn fenywod. Mae canran y gweithlu benywaidd wedi cynyddu ym mhob un o'r deng mlynedd diwethaf.

Roedd dwy ran o dair (64.0%) o ddeintyddion y GIG yn 44 oed neu'n iau ac roedd un o bob deg (10.0%) yn siarad Cymraeg.

## Cleifion a gafodd eu trin

Mae'r **Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal** (NICE) yn argymell bod cleifion yn cael eu galw'n ôl i archwilio'u dannedd, ar ôl cyfnod o dri mis i 24 mis, gan ddibynnu ar eu statws o ran iechyd y geg. Felly mae ystadegau 'cleifion a gafodd eu trin' yn seiliedig ar gyfnod treigl o 24 mis. Mae hyn yn golygu bod y pandemig COVID-19 yn dal i effeithio ar ystadegau trin cleifion gan fod y cyfnod 24 mis diweddaraf yn gorgyffwrdd â chyfnod y pandemig.


Dim ond unwaith y bydd pob claf yn cael ei gyfrif, hyd yn oed os yw wedi cael sawl cyfnod o ofal yn ystod y cyfnod o 24 mis. Gall cleifion gael eu trin y tu allan i'w bwrdd iechyd preswyl ac mae cleifion orthodontig yn cael eu cynnwys.

Mae'r ystadegau ynghylch canran y boblogaeth a gafodd wasanaethau deintyddol y GIG yn 2022-23 yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Dyma'r data poblogaeth diweddaraf sydd ar gael adeg cyhoeddi'r ystadegau.

Gweler yr **adran ansawdd a methodoleg** i gael gwybod mwy am amcangyfrifon poblogaeth a'r **adroddiad ansawdd** i gael gwybod mwy am sut y caiff cleifion eu cyfrif.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 1: Canran y boblogaeth oedolion a phlant a gafodd eu trin yn y cyfnod o 24 mis sy'n dod i ben ym mis Mawrth bob blwyddyn, 2014 i 2023 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 1: Roedd canran yr oedolion a gafodd eu trin ym mhob cyfnod o 24 mis yn sefydlog rhwng 2014 a 2020, cyn gostwng yn ystod pandemig COVID-19. Cynyddodd y ganran yn sydyn yn y cyfnod diweddaraf, ond mae'n dal yn is na'r hyn oedd cyn y pandemig. Roedd canran y plant a oedd yn cael eu trin ym mhob cyfnod o 24 mis yn cynyddu'n gyson tan y pandemig. Cynyddodd y ganran yn sydyn hefyd yn y cyfnod diweddaraf ond mae'n dal yn is na'r hyn oedd cyn y pandemig.

Ffynhonnell: ffurflen FP17W, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

[Nodyn 1] Mae oedolion yn cynnwys nifer y poblogaethau preswyl 18 oed neu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hŷn. Mae plant yn cynnwys nifer y poblogaethau preswyl rhwng 0 a 17 oed.

**Canran y boblogaeth oedolion a phlant a gafodd eu trin ym mhob cyfnod o 24 mis sy'n dod i ben ym mis Mawrth bob blwyddyn (StatsCymru)**

Yn y cyfnod o 24 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, cafodd ychydig dros 981,000 o oedolion (neu 39.4% o'r boblogaeth sy’n oedolion) a bron i 350,000 o blant (neu 56.8% o'r boblogaeth sy’n blant) eu trin gan ddeintyddion y GIG. Drwyddi draw, cafodd 1,331,440 o gleifion (neu 42.9% o gyfanswm y boblogaeth) eu trin.

O'i gymharu â'r cyfnod o 24 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, cynyddodd nifer yr oedolion a gafodd eu trin 34.0% (neu 249,252 o gleifion) a chynyddodd canran y boblogaeth oedolion a gafodd eu trin 10.0 pwynt canran.

Cynyddodd nifer y plant a gafodd eu trin 41.1% (101,987 o gleifion) a chynyddodd canran y plant a gafodd eu trin 16.5 pwynt canran.

Drwyddi draw, roedd cynnydd o 35.8% (351,239 o gleifion) yng nghyfanswm y cleifion a gafodd eu trin, a chynyddodd canran y boblogaeth gyfan a gafodd eu trin 11.3 pwynt canran.

Roedd cyfanswm nifer y cleifion a gafodd eu trin yn ystod y 24 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023 23.0% yn is na'r nifer a gafodd eu trin yn ystod y cyfnod 24 mis diwethaf nad oedd y pandemig wedi effeithio llawer arno (y 24 mis hyd at fis Mawrth 2020).

## Cleifion newydd a gafodd eu trin

Fel rhan o'r **rhaglen diwygio contractau deintyddol**, mae practisau deintyddol yn cael eu talu am weld cleifion newydd ac mae data am gleifion newydd yn cael eu casglu ers mis Ebrill 2022.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

'Cleifion newydd' yw'r rhai sy'n cael triniaeth a chanddynt **Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN)** wedi'i nodi ar y ffurflen FP17W yn y cyfnod presennol, nad oeddent wedi cwblhau cwrs o driniaeth Band 1, 2, neu 3 yn y pedair blynedd cyn y dyddiad y cawsant eu derbyn i gael y driniaeth bresennol.

### Ffigur 2: Cleifion deintyddol newydd y GIG a gafodd eu trin, fel canran o'r holl gleifion a gafodd eu trin, yn ôl oedolion a phlant, 2022-23 [Nodyn 1][Nodyn 2]




Disgrifiad o Ffigur 2: Roedd bron i un o bob saith o'r oedolion a bron i un bob pedwar o'r plant a gafodd eu trin yn 2022-23 yn gleifion newydd.

Ffynhonnell: FP17W, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

[Nodyn 1] Mae oedolion yn cyfeirio at gleifion 18 oed a hŷn; mae plentyn yn cyfeirio at gleifion 17 oed ac iau.

[Nodyn 2] Gan mai dim ond o fis Ebrill 2022 y mae data cleifion newydd ar gael,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mae'r enwadur ar gyfer cyfrifo'r ganran yn cynnwys nifer y cleifion a gafodd eu trin yn y cyfnod o 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn unig.

**Cleifion GIG newydd a gafodd eu trin (StatsCymru)**

Cafodd ychydig dros 112,000 (112,457) o gleifion newydd sy'n oedolion eu trin yn 2022-23, sef 14.8% o'r holl gleifion sy'n oedolion a gafodd driniaeth yn ystod y flwyddyn.

Cafodd ychydig dros 70,000 (70,325) o gleifion newydd sy'n blant eu trin, sef 23.2% o'r holl blant a gafodd eu trin yn ystod y flwyddyn.

Drwyddi draw, cafodd bron i 183,000 (182,782) o gleifion newydd eu trin yn 2022-23, sef 17.2% o'r holl gleifion a gafodd eu trin yn ystod y flwyddyn.


## Gweithgarwch: cyrsiau triniaeth

Mae'r data gweithgarwch yn y datganiad hwn yn seiliedig ar driniaethau a gwblhawyd ac a gofnodwyd drwy **Ffurflenni FP17W** a brosesir gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG. Caiff triniaethau eu categoreiddio yn ôl **bandiau triniaeth** a ddefnyddir i benderfynu ar y ffi a delir gan gleifion.

Ceir rhagor o wybodaeth yn yr **adroddiad ansawdd**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 3: Nifer y cyrsiau triniaeth yn ôl band triniaeth, bob blwyddyn rhwng 2013-14 a 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 3: Roedd cyfanswm y cyrsiau triniaeth yn weddol sefydlog dros y tymor hwy, cyn gostwng yn sydyn yn ystod y pandemig. Mae nifer y triniaethau wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n dal yn is na'r hyn oedd cyn y pandemig.

Ffynhonnell: ffurflen FP17W, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

### Cyrsiau triniaeth yn ôl band triniaeth (StatsCymru)

Yn 2022-23, cofnodwyd bron i 1.4 miliwn o gyrsiau triniaeth, cynnydd o bron i draean (29.4%) ers y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm y cyrsiau triniaeth 41.9% yn is nag yn ystod y cyfnod diwethaf, nad oedd y pandemig wedi effeithio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

llawer arno (2019-20).

Triniaethau Band 1 oedd y band triniaeth mwyaf cyffredin, sef dros hanner (53.5%) yr holl gyrsiau triniaeth. Cynyddodd nifer y triniaethau Band 1 fwy na hanner (57.4%) ers y flwyddyn flaenorol.

Bu chwarter o gynnydd mewn triniaethau Band 2 (25.8%) a gwelwyd cynnydd o 12.4% mewn triniaethau Band 3 ers y flwyddyn flaenorol.

Roedd tua un o bob saith (14.1%) o gyrsiau triniaeth yn rhai brys a gostyngodd nifer y triniaethau brys 16.6% ers y flwyddyn flaenorol; y gostyngiad blynyddol cyntaf mewn triniaethau brys ers y pandemig.

Gostyngodd nifer y triniaethau am ddim 38.6% a dyma'r lefel isaf ar gofnod (4,256 o driniaethau).

## Taliadau cleifion

Yn 2022-23, roedd ychydig o dan 660,000 (659,662) o gyrsiau triniaeth taladwy ar gyfer oedolion sy'n talu; 313,000 (313,117) o gyrsiau triniaeth ar gyfer oedolion nad ydynt yn talu ac ychydig o dan 380,000 (379,939)) o gyrsiau triniaeth i blant. Cynhyrchwyd £22.7 miliwn drwy daliadau cleifion, i fyny 19.6% ers 2021-22.

Mae **data ar gyfer cyrsiau triniaeth yn ôl math o gleifion a data taliadau cleifion ar gael ar StatsCymru**.


Mae **data ar gyfer Unedau o Weithgarwch Deintyddol ar gael ar StatsCymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Gweithgarwch: gweithgarwch deintyddol clinigol

Yn y datganiad ystadegol hwn caiff data gweithgarwch deintyddol clinigol eu categoreiddio fel triniaethau corfforol; cyngor ataliol; eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn; neu weithgarwch arall. Mae data ar gyfer gweithgarwch 'arall' ar gael ar StatsCymru yn unig. Gweler yr adran ansawdd a methodoleg i gael rhagor o wybodaeth. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr **adran ansawdd a methodoleg**.

## Ffigur 4: Canran y cyrsiau triniaeth a oedd yn cynnwys pob un o'r pum triniaeth gorfforol amlaf i oedolion a phlant, 2022-23 [Nodyn 1][Nodyn 2] [Nodyn 3]




Disgrifiad o Ffigur 4: Farnais fflworid oedd y driniaeth gorfforol a roddwyd amlaf i oedolion a phlant yn 2022-23. Y triniaethau corfforol mwyaf cyffredin eraill oedd: Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN), radiograffau, archwiliadau a llenwadau parhaol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: ffurflen FP17W, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

[Nodyn 1] Y data ar gyfer y pum triniaeth gorfforol a roddir amlaf yn unig a ddangosir yn y siart, ond mae data ar gyfer pob triniaeth gorfforol arall ar gael ar StatsCymru.

[Nodyn 2] Mae'n bosibl y bydd mwy nag un eitem glinigol wedi'i chofnodi ar ffurflen FP17W. Felly, ni fydd swm y canrannau yn ôl triniaeth gorfforol yn hafal i 100%.

[Nodyn 3] Mae oedolion yn cyfeirio at gleifion 18 oed neu hŷn; mae plant yn cyfeirio at gleifion 17 oed neu iau.

**Gweithgarwch deintyddol clinigol: triniaethau corfforol (StatsCymru)**

Yn 2022-23, roedd mwy na chwech o bob deg (62.7%) o gyrsiau triniaeth oedolion yn cynnwys farnais fflworid. Roedd nifer y cyrsiau triniaeth oedolion a oedd yn cynnwys farnais fflworid wedi cynyddu 26.1% ers 2021-22.

Roedd mwy nag wyth o bob deg (81.6%) o gyrsiau triniaeth plant yn cynnwys farnais fflworid. Roedd nifer y cyrsiau triniaeth plant a oedd yn cynnwys farnais fflworid wedi cynyddu 37.7% ers 2021-22.

Roedd mwy na phedwar o bob deg (43.4%) o gyrsiau triniaeth oedolion a 14.0% o gyrsiau triniaeth plant yn cynnwys radiograffau.

Roedd mwy na chwarter (27.1%) o gyrsiau triniaeth oedolion a 15.3% o gyrsiau triniaeth plant yn cynnwys llenwadau parhaol.


Mae Asesiadau o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN) yn eitem ddata glinigol newydd y dechreuwyd ei chasglu a’i dilysu’n ffurfiol ym mis Ebrill 2022. Mae ACORN yn darparu pecyn cymorth sy'n caniatáu i ddeintyddion gynnal asesiadau risgiau ac anghenion mewn ffordd systematig. Os cynhelir ACORN, nid oes angen cofnodi'r 'archwiliad'.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn 2022-23, cofnodwyd mwy na 600,000 (606,809) o asesiadau ACORN ar gyfer oedolion a bron i 270,000 (267,745) ar gyfer plant. Roedd 62.1% o'r holl gyrsiau triniaeth oedolion a 70.5% o'r holl gyrsiau triniaeth plant yn cynnwys ACORN.

Gweler yr **adran ansawdd a methodoleg** i gael gwybodaeth am newidiadau i'r ffordd y casglwyd rhai eitemau data clinigol drwy'r FP17W o 2022-23.

## Ffigur 5: Canran y cyrsiau triniaeth â chyngor ataliol i oedolion a phlant, 2022-23 [Nodyn 1] [Nodyn 2]




Disgrifiad o Ffigur 5: Yn 2022-23, cyngor ar bast dannedd fflworid a phoeri heb rinsio oedd y cyngor ataliol a gynigiwyd amlaf mewn cyrsiau triniaeth i oedolion a phlant.

Ffynhonnell: ffurflen FP17W, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

[Nodyn 1] Mae'n bosibl y bydd mwy nag un eitem glinigol wedi'i chofnodi ar ffurflen FP17W. Felly, ni fydd swm y canrannau yn ôl cyngor ataliol yn hafal i 100%.


[Nodyn 2] Mae oedolion yn cyfeirio at gleifion 18 oed neu hŷn; mae plant yn cyfeirio at gleifion 17 oed neu iau.

**Gweithgarwch deintyddol clinigol: cyngor ataliol (StatsCymru)**

Yn 2022-23, roedd un o bob pump (20.0%) o gyrsiau triniaeth oedolion yn cynnwys cyngor ar bast dannedd fflworid a phoeri heb rinsio, ac roedd un o bob chwech (17.2%) yn cynnwys cyngor ar frwsio dannedd.

Roedd bron i chwarter (24.2%) o gyrsiau triniaeth plant yn cynnwys cyngor ar bast dannedd fflworid a phoeri heb rinsio, ac roedd bron i un o bob pump (19.0%) yn cynnwys cyngor ar frwsio dannedd.

## Ffigur 6: Nifer y cyrsiau triniaeth ag eitemau a ragnodwyd ar gyfer oedolion a phlant, 2022-23 [Nodyn 1] [Nodyn 2]




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 6: Gwrthfiotigau oedd yr eitem a ragnodwyd fwyaf mewn cyrsiau triniaeth i oedolion, a phast dannedd fflworid uchel / rinsio dyddiol oedd yr eitem a ragnodwyd fwyaf mewn cyrsiau triniaeth i blant.

Ffynhonnell: ffurflen FP17W, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

[Nodyn 1] Mae'n bosibl y bydd mwy nag un eitem glinigol wedi'i chofnodi ar ffurflen FP17W. Ni fydd swm yr eitemau unigol a ragnodwyd yn cyfateb o reidrwydd i gyfanswm y cyrsiau triniaeth, lle rhagnodwyd eitem.

[Nodyn 2] Mae oedolion yn cyfeirio at gleifion 18 oed neu hŷn; mae plant yn cyfeirio at gleifion 17 oed neu iau.

### Gweithgarwch deintyddol clinigol: eitemau a ragnodwyd (StatsCymru)

Yn 2022-23 roedd ychydig yn llai na 30,000 (28,171) o gyrsiau triniaeth oedolion yn cynnwys rhagnodi gwrthfiotigau ac roedd mwy na 18,000 (18,721) yn cynnwys rhagnodi past dannedd fflworid uchel / rinsio dyddiol.

Roedd ychydig dros 5,000 (5,078) o gyrsiau triniaeth plant yn cynnwys rhagnodi past dannedd fflworid uchel / rinsio bob dydd ac roedd ychydig dros 4,000 (4,038) yn cynnwys rhagnodi gwrthfiotigau.

Roedd nifer bach iawn o gyrsiau triniaeth yn cynnwys rhagnodi paratoadau cryfach.

Roedd cyfanswm o 513 o gyrsiau triniaeth (oedolion a phlant wedi'u cyfuno) yn cynnwys presgripsiynau ar gyfer poenleddfwyr a 24 yn cynnwys presgripsiynau ar gyfer tawelyddion.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgarwch orthodonteg

Mae orthodonteg yn faes deintyddol arbenigol sy'n ymwneud â thwf a datblygiad y dannedd a'r genau, ac atal a thrin abnormaleddau yn y datblygiad hwnnw. Plant yw'r rhan fwyaf o'r cleifion, felly.

Mae **rhagor o fanylion am orthodonteg ar gael yn yr adroddiad ansawdd**.

### Ffigur 7: Nifer y triniaethau orthodontig a gynhaliwyd, 2013-14 i 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 7: Roedd nifer y triniaethau orthodontig yn cynyddu'n gymedrol cyn y pandemig, yna bu cwymp sydyn yn ystod y pandemig. Yn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2021-22 cynyddodd y triniaethau i lefel debyg i'r hyn oedd cyn y pandemig, cyn cynyddu i lefel sy'n record yn 2022-23.

Ffynhonnell: Ffurflen FP17OW (Ffurflen FP17OW a aseswyd ac a dderbyniwyd, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

**Nifer y triniaethau a gynhaliwyd (ffurflenni FP17OW a aseswyd ac a dderbyniwyd) (StatsCymru)**

Yn 2022-23, cofnodwyd mwy na 10,000 (10,695) o driniaethau orthodontig, y nifer uchaf i'w gofnodi. Mae hyn yn gynnydd o 13.7% ers y flwyddyn flaenorol ac yn gynnydd o 15.5% o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl.

# Y gweithlu

Mae ystadegau'r gweithlu deintyddol yn cyfeirio at gyfanswm nifer y deintyddion y cofnodwyd unrhyw weithgarwch GIG ar eu cyfer rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth bob blwyddyn. Ffigur cyfrif pennau yw hwn; nid oes data cyfwerth ag amser llawn ar gael ar hyn o bryd.


Mae system adrodd newydd yn cael ei chyflwyno ar gyfer y gweithlu deintyddol yng Nghymru a rhagwelir y bydd data o'r system honno ar gael i'w cyhoeddi yn 2024.

Mae ystadegau ar ddeintyddion fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer 2022-23 yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Gweler yr **adran ansawdd a methodoleg** i gael rhagor o wybodaeth am y gweithlu a'r boblogaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 8: Cyfanswm nifer y deintyddion â gweithgarwch y GIG a nifer y cyrsiau o driniaethau fesul deintydd, 2013-14 i 2022-23 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 8: Bu ychydig o ostyngiad yn nifer deintyddion y GIG yn ystod y pandemig ond mae wedi cynyddu ychydig ers hynny, ac yn 2022-23 roedd ychydig yn is na'r lefel cyn y pandemig. Mae nifer y cyrsiau triniaeth fesul deintydd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn cwymp sydyn yn ystod y pandemig, ond mae'n dal yn is na'r hyn oedd cyn y pandemig.

Ffynhonnell: Ffurflen FP17W.

[Nodyn 1] Cyflawnwyr â gweithgarwch y GIG wedi'i gofnodi drwy ffurflenni FP17W.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Deintyddion â gweithgarwch y GIG (StatsCymru)

### Cyrsiau triniaeth yn ôl band triniaeth (StatsCymru)

Yn 2022-23, roedd gweithgarwch y GIG wedi'i gofnodi ar gyfer 1,434 o ddeintyddion yng Nghymru. Mae hyn yn gynnydd o 1.0% ers 2021-22 (neu 14 yn fwy o ddeintyddion) ac yn ostyngiad o 0.3% (neu 4 deintydd) o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl.

Cwblhaodd pob deintydd gyfartaledd (cymedr) o 946 o gyrsiau triniaeth yn 2022-23. Mae hyn 28.1% yn uwch nag yn 2021-22, ond 42.7% yn is na 10 mlynedd yn ôl.

Mae nifer y deintyddion fesul pen o'r boblogaeth wedi bod yn weddol sefydlog dros y 10 mlynedd diwethaf, gyda dim ond newidiadau bach o flwyddyn i flwyddyn.


Roedd 46 deintydd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2022-23. Mae hyn yr un fath ag yn 2021-22 a 2013-14.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 9: Canran y deintyddion â gweithgarwch y GIG yn ôl rhyw, 2013-14 i 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 9: Siart bar sy'n dangos bod canran y deintyddion benywaidd wedi cynyddu dros y deng mlynedd diwethaf a bod ychydig dros hanner y deintyddion yn fenywod yn 2022-23.

Ffynhonnell: ffurflen FP17W

### Deintyddion â gweithgarwch y GIG (StatsCymru)

Mae'r patrwm deintyddion y GIG o ran eu rhyw wedi bod yn newid yn raddol dros amser yng Nghymru. Ddeng mlynedd yn ôl, dynion oedd mwyafrif y deintyddion, ond mae canran y deintyddion benywaidd wedi cynyddu bob


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

blwyddyn ers hynny ac yn y ddwy flynedd ddiwethaf roedd mwy o ddeintyddion benywaidd nag o rai gwrywaidd.

Yn 2022-23, roedd 50.8% o ddeintyddion â gweithgarwch y GIG yn fenywod, cynnydd o 0.4 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol a chynnydd o 7.7 pwynt canran o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl.

I'r gwrthwyneb, yn 2022-23, roedd 49.2% o ddeintyddion â gweithgarwch y GIG yn ddynion, gostyngiad o 0.4 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol a gostyngiad o 7.7 pwynt canran o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl.

## Ffigur 10: Canran y deintyddion â gweithgarwch y GIG yn ôl oedran, 2013-14 i 2022-23




**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 10: Ym mhob un o'r deng mlwyddyn ddiwethaf, roedd bron i ddwy ran o dair o ddeintyddion y GIG yn iau na 45 oed. Y grŵp oedran â'r nifer mwyaf o ddeintyddion oedd y grŵp dan 35, ac yna 35 i 44. Roedd gan y grŵp 55 neu hŷn y nifer lleiaf o ddeintyddion ym mhob un o'r deng mlwyddyn ddiwethaf.

Ffynhonnell: ffurflen FP17W

**Deintyddion â gweithgarwch y GIG (StatsCymru)**

At ei gilydd, nid yw proffil oedran gweithlu deintyddol y GIG wedi newid dros y 10 mlynedd diwethaf.

Yn 2022-23, roedd mwy na thraean (36.8%) o ddeintyddion yn 34 oed neu'n iau; roedd mwy na'u chwarter (27.2%) rhwng 35 a 44 oed; roedd ychydig dros un o bob pump (22.7%) rhwng 45 a 54 oed; ac roedd bron i un o bob saith (13.3%) yn 55 oed neu'n hŷn.

Ymylol oedd y newid ym mhob grŵp oedran ers y flwyddyn flaenorol; roedd y cynnydd mwyaf yn y grŵp oedran 45 i 54 (1.2 pwynt canran) ac roedd y gostyngiad mwyaf yn y grŵp oedran 55 neu hŷn (0.8 pwynt canran).


## Deintyddion a ymunodd ac a ymadawodd

Diffinnir ‘deintydd a ymunodd’ fel deintydd a gofnododd weithgarwch GIG yn y flwyddyn ddiweddaraf ond nid yn y flwyddyn flaenorol. Diffinnir ‘deintydd a ymadawodd’ fel un a gofnododd weithgarwch GIG yn y flwyddyn flaenorol ond nid yn y flwyddyn ddiweddaraf. Felly, mae oedi o flwyddyn yn y data ar gyfer y rhai a ymadawodd.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddeintyddion a ymunodd ac a ymadawodd yn yr **adroddiad ansawdd**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 11: Deintyddion a ymadawodd ac a ymunodd â'r GIG, 2013-14 i 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 11: Mae nifer y rhai a ymunodd ac a ymadawodd wedi bod yn weddol agos am y rhan fwyaf o'r 10 mlynedd diwethaf, gyda rhai amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn. Roedd y gwahaniaeth mwyaf yn y flwyddyn cyn y pandemig, pan ymadawodd 76 yn fwy o ddeintyddion nag a ymunodd. Ymunodd 37 yn fwy o ddeintyddion nag a ymadawodd yn 2021-22, y gwahaniaeth cadarnhaol mwyaf ar ôl 2012-13.

Ffynhonnell: ffurflen FP17W

**Deintyddion a ymadawodd ac a ymunodd â'r GIG (StatsCymru)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Er bod amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn, mae nifer y rhai a ymunodd ac a ymadawodd wedi bod yn agos dros y deng mlynedd diwethaf, gyda chyfartaledd (cymedr) o 156 yn ymuno ac 149 yn ymadael bob blwyddyn.

Yn 2021-22, rhoddodd 126 o ddeintyddion (8.9% o'r holl ddeintyddion yn 2021-22) y gorau i wneud gwaith y GIG, o'i gymharu â 163 o ddeintyddion (11.5% o'r holl ddeintyddion yn 2021-22) a ddechreuodd wneud gwaith y GIG yn 2021-22.

Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2022-23 yn dangos bod 140 wedi ymuno, sef 23 yn llai nag yn 2021-22.

## Y Gymraeg

Mae'n ofynnol i bob deintydd sy'n ymgymryd â deintyddiaeth y GIG yng Nghymru gael eu cofrestru ar y Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol. Wrth gofrestru, y deintydd ei hun sy'n cofnodi a yw'n gallu siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu drwy gwestiwn syml 'Ydw/Nac ydw' ac fel arfer nid yw'n cael ei diweddaru drwy gydol y cyfnod y bydd y deintydd ar y rhestr.


Mae ystadegau ar gyfer nifer y deintyddion sy'n siarad Cymraeg fesul 10,000 o siaradwyr Cymraeg (o Gyfrifiad 2021) a nifer y deintyddion Cymraeg eu hiaith fesul 10,000 o'r boblogaeth gyffredinol, yn seiliedig ar **amcangyfrifon canol 2021 SYG, ar gael ar StatsCymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 12: Canran deintyddion y GIG y cofnodwyd eu bod yn siarad Cymraeg, 2018-19 i 2022-23**




Disgrifiad o Ffigur 12: Mae canran y deintyddion a gofnodwyd fel siaradwyr Cymraeg wedi aros yn gyson ar tua 10% ym mhob un o'r chwe blwyddyn y mae data ar gael ar ei chyfer.

Ffynhonnell: Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn SYG, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**Deintyddion sy'n siarad Cymraeg (StatsCymru)**

**Amcangyfrifon Poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (StatsCymru)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Roedd 144 (neu 10.0%) o ddeintyddion Cymraeg eu hiaith wedi'u cofnodi yn y Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol yng Nghymru, ym mis Awst 2023. Mae hyn yn gynnydd o 13 deintydd sy'n siarad Cymraeg o'i gymharu â 2021-22.

Efallai na fydd yr ystadegau hyn o reidrwydd yn cyfateb i nifer y deintyddion sy'n trafod yn Gymraeg ar hyn o bryd neu sy'n gallu gwneud hynny.

Mae canran y deintyddion a oedd ag unrhyw sgiliau siarad Cymraeg yn 2022-23 (10.0%) yn is na'r ganran o boblogaeth Cymru sydd â sgiliau siarad Cymraeg. Mae Cyfrifiad 2021 (StatsCymru) yn amcangyfrif bod gan 17.8% o bobl Cymru rywfaint o sgiliau siarad Cymraeg, ac mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ym mis Mawrth 2023 yn amcangyfrif bod gan 29.7% o bobl Cymru rywfaint o sgiliau siarad Cymraeg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.


# Practisau deintyddol

## Ffigur 13: Practisau deintyddol cyffredinol, 2022-23

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.





**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Disgrifiad o Ffigur 13: Map o Gymru yn dangos lleoliad practisau deintyddol a oedd yn cynnig apwyntiadau GIG neu Wasanaeth Deintyddol Cymunedol yn 2022-23. Mae crynodiad uwch o bractisau deintyddol yn y De o'i gymharu â'r Canolbarth a'r Gogledd, sy'n adlewyrchu dwysedd y boblogaeth yn gyffredinol.

Ffynhonnell: FP17W, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

**Contractau a phractisau deintyddol (StatsCymru)**

Yn 2022-23, roedd 432 o bractisau deintyddol a 552 o gontractau deintyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dau gontract a leolir yn Lloegr (Swydd Amwythig).

Mae hyn yn seiliedig ar o leiaf un ffurflen FP17W neu FP17OW yn cael ei chyflwyno drwy gontract mewn practis deintyddol.

Mae diffiniadau o gontractau a phractisau ar gael yn yr **adran ansawdd a methodoleg**.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Cyhoeddir gwybodaeth fanwl am yr ystadegau yn y datganiad hwn yn yr **adroddiad ansawdd**.

## Effaith COVID-19

Cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar wasanaethau deintyddol yng Nghymru ac effeithiwyd ar y data a gasglwyd o chwarter olaf blwyddyn ariannol 2019-20 hyd at flynyddoedd ariannol llawn 2020-21 a 2021-22.

Roedd practisau wedi'u cyfyngu o ran y triniaethau y gallent eu darparu ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

anterth y pandemig, ac ers hynny mae mesurau atal a rheoli heintiau wedi'u llacio'n raddol. **Ceir rhagor o fanylion yn yr adroddiad ansawdd**.

## Cyrsiau triniaeth

Mae data ar gyrsiau triniaeth a gwblhawyd gan ddeintydd y GIG yn cael eu cyflwyno i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG i'w dalu trwy ffurflen FP17W electronig, drwy'r system Compass.

Mae cwrs triniaeth yn cael ei ddiffinio fel:

- (a) archwiliad o glaf, asesiad o iechyd ei geg, a chynllunio unrhyw driniaeth sydd i'w darparu i'r claf hwnnw o ganlyniad i'r archwiliad a'r asesiad;
- (b) darparu unrhyw driniaeth gynlluniedig (gan gynnwys unrhyw driniaeth a gynlluniwyd ar adeg heblaw adeg yr archwiliad cychwynnol) i'r claf hwnnw.

Bydd y cwrs triniaeth hefyd yn cynnwys unrhyw driniaeth a ddarganfyddir yn ystod y cwrs, hyd yn oed os yw ar ddyddiad sy'n hwyrach na'r asesiad cychwynnol. Er enghraifft, gallai'r clinigwr sydd â'u cwmpas ymarfer ddweud bod angen tri llenwad ar glaf, ond pan fydd y claf yn dychwelyd i gael y llenwad terfynol bydd y clinigwr yn sylweddoli bod angen llenwad pellach ar y claf. Byddai hyn yn cael ei gynnwys yn yr un cwrs triniaeth ac o dan yr un tâl cychwynnol.

Mae triniaethau'n cael eu rhannu'n fandiau triniaeth, yn ôl lefel cymhlethdod ac mae'r bandiau hyn yn cael eu defnyddio i bennu'r tâl sy'n cael ei dalu gan gleifion. Diffinnir y bandiau fel:

### Band 1

Mae'n cynnwys archwiliad a thriniaeth syml (fel archwiliad, diagnosis (e.e.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

pelydr-x), cyngor ar fesurau ataliol, a farnais fflworid).

### Band 2

Mae'n cynnwys triniaethau canolig (fel llenwadau, echdyniadau, a gwaith ar sianel y gwreiddyn) yn ogystal â gwaith Band 1.

### Band 3

Mae'n cynnwys triniaethau cymhleth (fel coronau, dannedd gosod, a phontydd) yn ogystal â gwaith Band 1 a Band 2.

### Brys

Triniaethau lle mae gofal yn cael ei ddarparu'n gyflym oherwydd, ym marn yr ymarferydd deintyddol, bod iechyd ceg yr unigolyn yn debygol o ddirywio'n sylweddol, neu bod yr unigolyn mewn poen difrifol oherwydd cyflwr y geg; a dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i atal y dirywiad sylweddol hwnnw neu i fynd i'r afael â'r boen ddifrifol honno y mae gofal a thriniaeth yn cael eu darparu.

### Am ddim

Triniaethau na chodir tâl ar gleifion amdanynt: maent yn cynnwys atal gwaedu, atgyweirio pont, atgyweirio dannedd gosod, tynnu pwythau, a materion yn ymwneud â phresgripsiwn.

**Mae manylion llawn y triniaethau ym mhob un o'r bandiau lle codir tâl i'w gweld ar wefan y GIG**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgarwch deintyddol clinigol

Mae'r eitemau data clinigol yn y ffurflen FP17W yn cynnwys triniaethau corfforol yn ogystal â chyngor ataliol ac eitemau a roddir ar bresgripsiwn. Er enghraifft, gallai un cwrs o driniaeth gynnwys gweithgarwch deintyddol clinigol fel llenwad parhaol, cyngor ar frwsio dannedd, a phresgripsiwn am wrthfiotig. Mae'r holl ddata ar gael ar StatsCymru.

Mae'r eitemau data clinigol sydd ar gael yn adlewyrchu'r rhai a gesglir yn y **ffurflen FP17W (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG)**.

Ers y datganiad ystadegol diwethaf, bu newidiadau i'r ffordd y casglwyd rhai eitemau data clinigol drwy'r FP17W. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno asesiad ACORN sy'n becyn cymorth sy'n galluogi timau deintyddol i grynhoi canfyddiadau o hanes ac archwiliad clinigol y claf mewn modd systematig. Os bydd asesiad ACORN yn cael ei gynnal, nid oes angen cofnodi 'archwiliad'. Felly, ni chaiff data archwiliadau eu casglu ar yr un sail ag yn y blynyddoedd blaenorol. Sylwer hefyd nad oes angen cynnal asesiad ACORN ar gyfer cyrsiau triniaeth brys.

Gall cleifion gael mwy nag un driniaeth glinigol o fewn un cwrs o driniaeth. **Gweler gwefan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG i gael rhagor o wybodaeth am eitemau clinigol**.

## Diffiniadau o'r termau clinigol a ddefnyddir yn y datganiad hwn

### Farnais fflworid

Paratoad fflworid sy’n cael ei roi ar arwyneb dannedd fel prif fesur ataliol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Radiograff(au)

Mae radiograffau deintyddol, neu belydr-x fel y'u gelwir yn aml, yn rhoi delwedd o'r dannedd, y geg a/neu'r deintgig sy'n gallu helpu'r deintydd i ganfod problemau sylfaenol, fel pydredd ac afiechyd y deintgig.

## Llenwadau parhaol a llenwad selydd

Adfer dant drwy lenwi ceudod i gymryd lle meinwe a gollwyd yn y dant. Gellir defnyddio sylweddau amrywiol, gan gynnwys resin cyfansawdd, amalgam neu ionomer gwydr.

## Archwiliad

Bydd hyn fel arfer yn cynnwys siartio'r dannedd, cofnodi'r cyflwr periodontol ac archwilio'r feinwe feddal. Caiff y manylion i gyd eu nodi gyda'r manylion clinigol angenrheidiol eraill ar y cofnod clinigol.

Gwnaed newidiadau i'r ffordd y dylid cofnodi archwiliadau yn FP17W ym mis Ebrill 2020 ac eto ym mis Ebrill 2022. O fis Ebrill 2022 ymlaen, os cofnodir asesiad ACORN mewn FP17W, ni ddylid cynnal archwiliad.

## Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN)

Offeryn asesu risg, a ddylai gael ei gofnodi fel rhan o asesiad trylwyr o iechyd y geg. Mae asesiad ACORN yn cynnwys 8 thema sy'n cael eu cofnodi ar y FP17Ws: hanes meddygol; hanes cymdeithasol; hanes deintyddol; pydredd dannedd; cyfanswm y dannedd yn y geg; cyfanswm nifer y dannedd â phydredd dentinol; iechyd periodontol; ac anghenion deintyddol eraill.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyngor ataliol

### Cael gwared ar ffactorau sy’n cadw plac

Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar ffactorau sy’n cadw plac, er enghraifft calchgen a bargodiad.

### Cyngor ar frwsio dannedd

Pan fo angen cyngor ar frwsio dannedd, gan gynnwys dangos sut i wneud.

### Cymhorthion glanhau rhwng dannedd

Dangos y cymhorthion a gwylio'r claf yn defnyddio brwsys glanhau rhwng y dannedd yn y rhannau perthnasol o'r geg.

### Cynllun gwella hylendid y geg

Trafodir cynllun i wella hylendid y geg y claf.

## Gweithlu'r GIG

Mae system adrodd gweithlu newydd yn cael ei chyflwyno i holl bractisau deintyddol y GIG yng Nghymru, yn seiliedig ar System Genedlaethol Adrodd am y Gweithlu Cymru sydd wedi'i defnyddio i gasglu **data am y gweithlu meddygon teulu** ers 2020. Pan fydd y system ar waith, bydd data'r gweithlu yn cael ei echdynnu a bydd ystadegau swyddogol newydd ar weithlu deintyddol y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

GIG yn cael eu cynhyrchu. Rhagwelir y bydd yr ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2024.

## Contractau a phractisau deintyddol

Contract deintyddol: ymarferydd deintyddol neu grŵp o ymarferwyr deintyddol sy'n ymrwymo i gontract â Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG. Gall mwy nag un ymarferydd deintyddol gyflawni gwaith deintyddol y GIG o dan yr un contract (er enghraifft, gall yr ymarferydd sy'n ymrwymo i'r contract is-gontractio i ymarferwyr deintyddol eraill i wneud gwaith o dan yr un contract).

Practis deintyddol: y lleoliad daearyddol lle cynhaliwyd triniaeth ddeintyddol. Mae'n bosibl y bydd gwahanol ymarferwyr deintyddol yn gwneud gwaith yno os ydynt wedi ymrwymo i gontractau deintyddol ar wahân â'r Bwrdd Iechyd Lleol.

## Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn

Cyfrifir canrannau cleifion/oedolion/plant a gafodd eu trin yn y cyfnod 24 mis diweddaraf gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) gan nad oedd amcangyfrifon poblogaeth canol 2022 wedi'u cyhoeddi adeg cyhoeddi'r datganiad hwn.

Bydd y SYG hefyd yn cyhoeddi amcangyfrifon canol blwyddyn wedi'u hailsylfaenu ar gyfer y cyfnod rhwng canol 2012 a chanol 2020 ar ôl i'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi.

Mae hyn yn golygu y bydd yr ystadegau ar gyfer canran y cleifion/oedolion/plant a gafodd eu trin yn ystod y 24 mis perthnasol yn cael eu diwygio yn natganiad ystadegol deintyddol nesaf y GIG. Disgwylir mai bach fydd y newidiadau yn y canrannau, ond os byddant yn fawr byddant yn cael sylw manylach yn y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

datganiad ystadegol.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi bod yr holl ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy’n dangos eu bod yn cydymffurfio â’r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai unrhyw ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni'r safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Dynodwyd yr ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2012 yn dilyn **asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau**.

Ers adolygiad diwethaf y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Cynnwys data agored ychwanegol, gyda dadansoddiadau manylach, ar ein gwefan **StatsCymru**.
- Diweddaru gwybodaeth allweddol am ansawdd a diweddaru sylwadau drwy’r holl ddatganiad, gan gynnwys cymariaethau data dros amser hirach.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol  hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021. yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **Adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach ar **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gallwch ei anfon mewn e-bost i: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Sabir Ahmed
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 83/2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.